# Y GORLAN

England & Wales · Charity number 1165876

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | CIO |
| **Registered** | 2016-03-04 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 2 Cefn Llwyn<br>Lon Penrhos<br>Morfa Nefyn<br>Pwllheli<br>Gwynedd<br>LL53 6BL |
| **Phone** | 07848919571 |
| **Email** | ygorlan1@gmail.com |
| **Website** | ygorlan.cymru |

## Activities

**Objects:** TO PROMOTE THE CHRISTIAN RELIGION FOR THE SAKE OF THE GENERAL PUBLIC IN LINE WITH OUR DECLERATION OF FAITH IN ARTICLE 31 AND THE DECLERATION OF ETHOS, PRIMARILY IN WALES, AND OCCASIONALY PARTS OF THE UNITED KINGDOM AND THE WORLD AS THE TRUSTEES WILL DEEM FIT FROM TIME TO TIME, ESPECIALLY BUT NOT LIMITED TO PROMOTING CO-WORKIG BETWEEN CHRISTIANS IN WALES AND THE WORLD, THROUGH THE MEDIUM OF WELSH ESPECIALLY, AND ORGANISING EVENTS THAT WILL BE OPPORTUNITIES TO CELEBRATE THE CHRISTIAN FAITH.

**Activities:** We are a Christian missionary charity, and we run mission annually at the National Eisteddfod of Wales.

## Classification

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services, Provides Advocacy/advice/information
- **What:** Religious Activities
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People

Downloaded from opencharities.uk/ew/1165876

## Geography

- Throughout Wales

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £500 | £18 | - | - |
| 2024-03-31 | £1,145 | £2,498 | - | - |
| 2023-03-31 | £1,290 | £708 | - | - |
| 2022-03-31 | £0 | £704 | - | - |
| 2021-03-31 | £0 | £654 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Alun Bryn Rennolf** | Chair | 2024-06-15 |
| Elen Fon Rennolf | | 2024-06-15 |
| Esyllt Mon Roberts | | 2022-05-30 |
| Fflur Bowen | | 2025-11-22 |
| Tomos Gwynfor Edwards | | 2022-05-30 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1165876

# Accounts

# Adroddiad y Cadeirydd

22.11.25
Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi edrych yn wahanol iawn i'r Gorlan, ond rhaid diolch i'r Arglwydd am y cyfleon y cawsom i tystio i Iesu Grist dros y flwyddyn ddiwethaf. Braf oedd cael y cyfle unwaith eto i wasanaethu pobl ifanc Cymru yn ymarferol ac yn ysbrydol drwy gynnig te a thost yn y ddau ddigwyddiad Rhyng-Golegol. Roedd hi'n fraint arbennig i gyd-weithio gyda a chefnogi UCCA yn eu cenhadaeth nhw i fyfyrwyr yn y Ddawns Ryng-Golegol 2024 ac Eisteddfod Rhyng-golegol 2025, a hyfryd oedd cael ein gofyn i gynnig hyfforddiant efengylu iddynt. Wrth feddwl am weledigaeth y Gorlan i gefnogi Cristnogion Cymru yn gwneud cenhadaeth yn eu cyd-destunau penodol nhw, mae cefnogi ymarferol a darparu hyfforddiant efengylu yn sicr yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad hwnnw. Er i ni estyn allan i wyliau lleol gyda'r gobaith o gefnogi eglwysi lleol (Gŵyl Canol Dre fel enghraifft), ni wireddwyd y gobaith hwnnw yn y flwyddyn 2024-25. Dyma rywbeth i ni geisio eto i'w gyflawni yn y flwyddyn sy'n dod petai'r Arglwydd yn agor y drws i ni wneud. Rhaid diolch i Eleri Davies am ei gwasanaeth ffyddlon fel trysorydd y Gorlan am sawl blwyddyn erbyn hyn. Ar ddiwedd ei chyfnod yn y rôl, diolchwn i Dduw amdani, ac am y ffordd mae hi wedi gwasanaethu'r Arglwydd drwy ei gwaith hi dros y Gorlan.

**<u>Mantolen Y Gorlan 2024-25</u>**

| | Derbyniadau (£) | Taliadau (£) |
|---|---|---|
| Yn y Cyfrif ar 31ain Mawrth 2024 | 2,475.90 | |
| Gwefan | | 18.00 |
| Rhoddion | 500.00 | |
| Yn y Cyfrif ar 31ain Mawrth 2025 | 2,957.90 | |

| Dyddiad | Arian (£) | Disgrifiad | Categori |
|---|---|---|---|
| 25/10/2024 | +500 | Rhodd | Rhodd |
| 08/11/2024 | -18 | Ionos Cloud Ltd | Gwefan |

**Y GORLAN**

England & Wales - Charity number 1165876

# Accounts

# Adroddiad y Cadeirydd

*2023–24*

Braint unwaith eto oedd cael mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan i rannu efengyl Iesu Grist yn 2023. Ein prif waith oedd crwydro'r maes yn sgwrsio â phobl ifanc, ac at hyn defnyddiwyd thema 'lle i enaid gael llonydd'. Roeddem yn gofyn i bobl ble roedden nhw'n cael llonydd neu heddwch, ac esgorodd hyn ar sawl sgwrs fendithiol. Ar gyfer y rheini oedd â diddordeb yn yr efengyl, roedd gennym dractiau i'w rhoi iddynt; ar un ochr roedd llun hardd a geiriau Salm 121:1–2, ac ar y llall roedd crynodeb o'r hyn yr ydym fel Cristnogion yn ei gredu. Roedd aelodau o'r tîm hefyd yn gwisgo hwdis â'r un dyluniad â'r tractiau, ac roedd hyn yn gallu bod yn help ar gyfer dechrau sgwrs. Cafwyd sawl her, ac roedd dechrau sgwrs yn un ohonynt, yn ogystal â chyrraedd pobl dan 21 oed ar faes llawn teuluoedd a phobl hŷn. Er hyn, gwnaed gwaith gwerthfawr, a'n gweddi nawr yw y bydd Duw yn parhau â'i waith yng nghalonau'r bobl a welsom ac y byddant yn dod i gredu yn yr Arglwydd Iesu Grist a'i gyffesu yn Arglwydd ac yn Waredwr.

Yn ogystal â hyn, roedd aelodau o dîm y Gorlan yn cydweithio â gwirfoddolwyr Mudiad Efengylaidd Cymru ar stondin 'Bywyd'. Ar y stondin hon, roeddem yn gofyn i bobl fyfyrio ar eu bywyd, ac i ystyried sut y byddent yn eu disgrifio eu hunain. Eto, esgorodd hyn ar nifer o sgyrsiau da, a gwelsom rai pobl yn dychwelyd atom am sgwrs sawl gwaith yn ystod yr wythnos. Ein gweddi yw y bydd Duw yn rhoi bywyd newydd yng nghalonau'r bobl hyn hefyd er clod iddo ef ei hun.

Bob bore, roeddem yn cynnal cyfarfodydd gweddi ar gyfer y tîm dan arweiniad aelodau o'r pwyllgor yn ogystal â'n caplaniaid, Y Parch Bryn a Nia Williams, Pwllheli. Roedd y cyfarfodydd hyn yn fendithiol iawn i aelodau'r tîm ac rydym yn ddiolchgar i'r Arglwydd am ei gynhaliaeth gydol yr wythnos. Darllenasom lythyr cyntaf Ioan gyda'n gilydd, ac roedd ymdeimlad bod y Gair hwn wedi siarad â ni mewn ffordd real a pherthnasol iawn.

Hoffwn fynegi fy niolch personol i bwyllgor a thîm y Gorlan am eu cariad tuag at yr Arglwydd Iesu a'r gymdeithas sydd gennym â'n gilydd trwyddo. Braint yn wir oedd cael bod yn rhan o dîm o bobl a oedd mor frwd dros waith y Deyrnas. Hoffem fel pwyllgor ddiolch i'r Parch Bryn a Nia Williams am eu cefnogaeth cyn ac yn ystod yr wythnos, ac i Wini Jones am agor ei chartref ym Mynydd Nefyn inni yn ystod yr wythnos. Hoffem ddiolch hefyd i bawb a gefnogodd y gwaith, yn ariannol, ond yn bwysicaf mewn gweddi.

Ein gweddi yw y bydd y gwaith pwysig o rannu am gariad aberthol Iesu Grist yn parhau yng Nghymru am flynyddoedd, ac y bydd yna dywalltiad o'r Ysbryd Glân yn ein gwlad gan ddod â llawer eto i gredu yn y Gwaredwr. Dyma'r unig obaith i fyd diobaith a phechadurus, a chawn gysur yng ngeiriau ein Duw: 'Myfi, myfi yw'r ARGLWYDD;
nid oes waredydd ond myfi.' (Eseisa 43.11).

# Mantolen

| | Derbyniadau (£) | Taliadau (£) |
|---|---|---|
| **Yn y Cyfrif ar 31ain Mawrth 2023** | 3,829.23 | |
| Ymgyrch | | 2,498.33 |
| Rhoddion | 1,145.00 | |
| **Yn y Cyfrif ar 31ain Mawrth 2024** | 2,475.90 | |

| Dyddiad | Arian | Disgrifiad | Categori |
|---|---|---|---|
| 02/06/2023 | -£591 | Pebyll | Ymgyrch |
| 03/07/2023 | +£1,000 | Rhodd | Rhodd |
| 20/09/2023 | -£23 | Ad-dalu tocyn Eisteddfod | Ymgyrch |
| 20/09/2023 | -£77 | Ad-dalu tocynau Eisteddfod | Ymgyrch |
| 20/09/2023 | -£80.79 | Ad-dalu costau Eisteddfod | Ymgyrch |
| 20/09/2023 | -£167 | Ad-dalu tocynau Eisteddfod | Ymgyrch |
| 20/09/2023 | -£713.54 | Ad-dalu tocynau Eisteddfod & Crysau-T | Ymgyrch |
| 20/09/2023 | -£846 | Ad-dalu costau Eisteddfod | Ymgyrch |
| 20/03/2024 | +£145 | Rhodd | Rhodd |

# Accounts

# Adroddiad y Cadeiryddion

*Y Gorlan*

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Arglwydd am alluogi i'r Gorlan gynnal ymgyrch ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion yn 2022. Roedd dwy brif elfen i'n cenhadaeth yn Nhregaron. Yr elfen gyntaf oedd cynorthwyo pabell 'Bywyd' gyda'i hymgyrch genhadol ar brif faes yr Eisteddfod. Wedi'i noddi gan Fudiad Efengylaidd Cymru, bwriad pabell Bywyd oedd tystio i Iesu a'r 'bywyd yn ei holl gyflawnder' (Ioan 10:10) sydd i'w gael ynddo. Yn ystod yr wythnos, cafodd tîm y Gorlan nifer o sgyrsiau diddorol ag eisteddfodwyr ynglŷn â Duw, yr Arglwydd Iesu a chwestiynau mawr bywyd. Er mwyn ein helpu i gychwyn sgyrsiau â'r rhai oedd yn pasio, roedd Steff Job wedi paratoi holiadur defnyddiol a oedd yn annog pobl i fod yn onest ynglŷn â'u barn am Dduw a Christnogaeth.

Yr ail elfen o'n cenhadaeth oedd cynnal sgyrsiau â phobl ifanc ar faes yr Eisteddfod trwy ofyn iddynt gymryd rhan mewn cyfweliad *voxpop. Voxpop* (*vox populi*: 'llais y bobl') yn syml yw cyfweliad fideo byr lle mae nifer o bobl yn cael eu holi i ateb cwestiwn penodol. Mae nifer o'r cyfweliadau hyn i'w gweld ar ein sianel YouTube (https://www.youtube.com/@ygorlan8444). Y cwestiwn mawr a ofynnwyd i eisteddfodwyr ifanc Tregaron oedd: 'Ydy Cristnogaeth yn fwy na thraddodiad yng Nghymru heddiw?' Cynigiwyd atebion amrywiol i'r cwestiwn hwn, sy'n awgrymu'n gryf nad oedd ieuenctid Cymru'n sicr o natur eu perthynas â Christnogaeth. Er hynny, roedd yr atebion hefyd yn awgrymu bod rhai'n gallu gwahaniaethu rhwng traddodiad marw a ffydd fyw yn Iesu Grist.

Yn ogystal â'r uchod, cafwyd cyfarfodydd gweddi dyddiol yn ystod yr Eisteddfod o dan arweiniad aelodau o dîm y Gorlan er mwyn gofyn i'r Arglwydd ein helpu trwy nerth yr Ysbryd Glân. Rydym yn ddiolchgar i'r Arglwydd am ein cynnal drwy'r gwaith, ac am gwmni ac anogaethau Cristnogion eraill ar y maes gydol yr wythnos. Cafodd tîm y Gorlan hefyd y fraint o recordio oedfa Radio Cymru gyda John Roberts yn ystod yr wythnos. Roedd hwn yn gyfle gwych i dystio i gynulleidfa genedlaethol am Iesu a'i efengyl.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i bwyllgor a thîm y Gorlan am eu cariad tuag at yr Arglwydd Iesu a'u parodrwydd i rannu'r newyddion da amdano yn Nhregaron. Hoffem fynegi ein diolch yn arbennig i Lewis Brunt a Siwan Fflur Davies sy'n ymddeol o'r pwyllgor wedi blynyddoedd o wasanaeth. Edrychwn ymlaen at weld sut y bydd Duw yn eu defnyddio yn y dyfodol.

Bydded i'r Arglwydd fod ar waith yng nghalonnau'r bobl a glywodd yr efengyl er mwyn iddynt ymddiried ynddo a phrofi diogelwch ei gorlan ef. Ein gobaith yw y caiff llawer o bobl glywed efengyl iachawdwriaeth yn yr

Eisteddfod ym Moduan eleni, ac y caiff rhai eto eu hachub drwy ras yr Arglwydd Iesu Grist.

*Gwilym Tudur (cyn-gadeirydd), Gruffydd Rhys Davies (cadeirydd)*

## **Mantolen Y Gorlan 2022-23**

| | **Derbyniadau** | **Taliadau** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| **Yn y Cyfrif ar 31ain Mawrth 2022** | 3,247.23 | |
| Storio | | 600.00 |
| Gwefan | | 108.00 |
| Rhoddion | 1,290.00 | |
| **Yn y Cyfrif ar 31ain Mawrth 2023** | 3,829.23 | |

Wedi'i archwilio a'i gael yn gywir:

| **Dyddiad** | **Arian (£)** | **Disgrifiad** | **Categori** |
|---|---|---|---|
| 01/04/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 03/05/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/06/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/07/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/08/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/09/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 03/10/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/11/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/12/2022 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 03/01/2023 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/02/2023 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 06/02/2023 | -£108.00 | 1310 Wix.com 10383 | Gwefan |
| 01/03/2023 | -£50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/03/2023 | +£540.00 | EGLWYS EFENG ARDUDWY | Rhodd |
| 13/03/2023 | +£500.00 | TABERNACL RESOLVEN | Rhodd |
| 31/03/2023 | +£250.00 | *cheque* | Rhodd |

# Accounts

## Adroddiad y Cadeirydd
## (6 Ebrill 2021 – 5 Ebrill 2022)

Yn ddi-os, bu'r flwyddyn ariannol 2021-2022 yn un anarferol arall i elusen y Gorlan. O ganlyniad i ledaeniad Coronafeirws yng Nghymru, gohiriwyd Eisteddfod Genedlaethol Tregaron am yr ail flwyddyn yn olynol. Ychydig fisoedd wedi'r penderfyniad hwn, cyhoeddodd awdurdodau'r Eisteddfod y byddai 'Eisteddfod AmGen' yn digwydd yn ddigidol eto ym mis Awst.

Er y bu hi'n flwyddyn heriol arall i waith a chenhadaeth y Gorlan, ni ddylid diystyru'r pethau cadarnhaol a ddigwyddodd yn 2021 a dechrau 2022. Un o'r pethau hynny oedd cael croesawu Tomos Gwynfor ac Esyllt Roberts yn aelodau newydd o Bwyllgor Gwaith y Gorlan. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Arglwydd am Tomos ac Esyllt ac am eu parodrwydd i wasanaethu Duw trwy'r Gorlan. Fel pwyllgor, buom yn gweddïo ers tro y byddai'r Arglwydd yn caniatáu i Gristnogion ifanc, brwdfrydig ymuno â'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r ffaith fod Tomos ac Esyllt wedi ymuno gyda ni yn tystio'n glir fod Duw yn gwrando ac yn ateb ein gweddïau.

Peth cadarnhaol arall a ddigwyddodd oedd y 'Cynllun Cyfryngau Cymdeithasol' a baratowyd gan ein Swyddog Marchnata, Siwan Fflur, yn 2021. Yn ystod y flwyddyn, bu Siwan yn gosod deunydd cenhadol a Beiblaidd ar gyfryngau cymdeithasol y Gorlan er mwyn rannu'r newyddion da am Iesu gyda'r Cymry Cymraeg. Mewn blwyddyn lle nad oedd modd cyfarfod â phobl ar faes yr Eisteddfod, roedd y defnydd hwn o'r cyfryngau cymdeithasol yn elfen bwysig o'n tystiolaeth.

Uchafbwynt y flwyddyn, er hynny, oedd y gyfres o fideos byrion a gafodd eu darlledu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod wythnos yr Eisteddfod AmGen. Yn seiliedig ar ddywediadau 'Myfi yw...' Iesu yn Efengyl Ioan, bwriad y fideos hyn oedd rhannu'r newyddion da am Iesu gyda'r Cymry a fyddai'n gwylio'r Eisteddfod AmGen. Cafwyd fideo ar 'Bara'r Bywyd' (6:35) gennyf fi; ar 'Oleuni'r Byd' (8:12) gan Elin; ar 'Ddrws y Defaid' (10:7) gan Gruffydd; ar y 'Bugail da' (10:11) gan Twm; ar yr 'Atgyfodiad a'r Bywyd' (11:25) gan Siwan; ar 'Y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd' (14:6) gan Lewis; ac ar 'Y wir winwydden' (15:1) gan Eleri. Bu'r ymgyrch hon yn llwyddiannus ac mae'n amlwg fod cannoedd o bobl wedi gwylio'r fideos ar Facebook, Instagram a YouTube. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn defnyddio'r fideos hyn er clod i'w hunan.

Fel Cadeirydd, rwyf yn ddiolchgar iawn i'r pwyllgor i gyd am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Diolch i Gruffydd am ei wasanaeth diflino fel Ysgrifennydd ac am gadw cofnodion manwl o'n cyfarfodydd. Diolch i Eleri am gadw golwg ar ein hadnoddau ariannol fel Trysorydd ac i Siwan, Lewis, Twm, Esyllt ac Elin am eu mewnbwn gwerthfawr yn mhob cyfarfod pwyllgor. Wedi symud i'r Iwerddon, ymddeolodd Elin â'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Arglwydd am ei chyfraniad pwysig i'r Gorlan a gweddïwn am fendith Duw arni â'i gŵr, Eli. Fel Pwyllgor Gwaith, rydym hefyd yn gyson yn diolch i Dduw am holl gefnogwyr y Gorlan, boed yn eglwysi lleol neu'n unigolion. Diolch am ein cefnogi mewn gweddi ac yn ariannol ar hyd y flwyddyn.

Rydym yn edrych ymlaen yn obeithiol at y dyfodol. Er bod Covid-19 yn dal i fod gyda ni, bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn digwydd yn

Nhregaron ym mis Awst. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn rhoi nifer o gyfleodd i ni sôn amdano Ef yn yr eisteddfod hon.

Gwilym Tudur
Cadeirydd y Gorlan
Mehefin 2022

**<u>Mantolen Y Gorlan 2021-22</u>**

| | Derbyniadau | Taliadau |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| **Yn y Cyfrif 31ain Mawrth 2021** | 3,951.63 | |
| Storio | | 600.00 |
| Gwefan | | 104.40 |
| **Yn y cyfrif 31ain Mawrth 2022** | 3,247.23 | |

Wedi ei archwilio a'r ddarganfod yn gywir



Arwyddwyd 31/01/2022

**Taliadau**

| <u>Dyddiad</u> | <u>Arian (£)</u> | <u>Disgrifiad</u> | <u>Categori</u> |
|---|---|---|---|
| 01/04/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/05/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/06/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/07/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 02/08/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/09/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/10/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/11/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/12/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 04/01/2022 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/02/2022 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 08/02/2022 | 86.40 | 1310 WIX COM*PREMI | Gwefan |
| 22/02/2022 | 18.00 | 1310 and 1 IONOS | Gwefan |
| 01/03/2022 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |

**Y GORLAN**

England & Wales - Charity number 1165876

# Accounts

**Adroddiad y Cadeirydd**

Yn ddi-os, bu 2020 yn flwyddyn dra gwahanol i bawb yng Nghymru a'r byd. Nid yw'n syndod, felly, y bu 2020 yn flwyddyn cwbl unigryw i waith a chenhadaeth y Gorlan hefyd. Pan wnaeth Pwyllgor Gwaith y Gorlan gyfarfod yn yr Amwythig ar gyfer cyfarfod cyntaf y flwyddyn ym mis Chwefror, nid oeddwn yn gwybod bryd hynny fod pandemig byd-eang yn mynd i effeithio ar bob agwedd o'n bywydau bob dydd. Yn y cyfarfod hwn, roeddem yn cymryd yn ganiataol fod yr Eisteddfod yn mynd i ddigwydd yn Nhregaron ym mis Awst 2021 a dyna, yn wir, oedd prif destun ein trafodaeth.

Erbyn ail gyfarfod y pwyllgor ar Skype ym mis Mawrth 2020, nid oedd Covid-19 bellach yn firws pell yn China ond yn afiechyd difrifol oedd yn effeithio ar bob rhan o'r byd. Bryd hynny, roedd hi'n gwbl amlwg fod sefyllfa'r Eisteddfod Genedlaethol yn ansicr. Ar 30ain o Fawrth 2020, cadarnhawyd ein holl bryderon wrth i'r Eisteddfod Genedlaethol gyhoeddi na fyddai'r wŷl yn cael ei chynnal eleni. Yn amlwg, nid oedd y cyhoeddiad hwn yn un annisgwyl, ond er gwaetha hynny, roedd yn sialens i waith y Gorlan. Gan mai ein prif nod ni yw rhannu'r newyddion da am Iesu Grist ar amrywiol feysydd yr Eisteddfod Genedlaethol, roedd y cyhoeddiad hwn yn ein gorfodi ni i ofyn y cwestiwn: Sut fyddai gwaith a chenhadaeth y Gorlan yn edrych eleni heb yr Eisteddfod Genedlaethol? Yn fuan wedi'r cyhoeddiad hwn, dyma'r Gorlan hefyd yn cyhoeddi hysbyseb ar ein gwefan yn esbonio ein bod yn cytuno gyda phenderfyniad yr Eisteddfod i ohirio a'n bod yn gweddïo dros drefnwyr yr Eisteddfod yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith y Gorlan ym mis Mai 2020, dyma ni'n mynd ati i drafod beth allwn ni wneud i rannu'r Efengyl eleni. Yn y cyfarfod hwn, dyma ni'n trafod y syniad o recordio a rhannu fideos byr o bobl yn rhannu eu tystiolaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. Ein bwriad oedd casglu fideos gan bobl sydd wedi gwirfoddoli i'r Gorlan ar hyd y blynyddoedd gan ofyn iddynt sut mae'r gwirfoddoli i'r Gorlan wedi cryfhau eu ffydd yn Iesu Grist. Ar ôl ffilmio'r fideos, y bwriad oedd eu rhannu ar Facebook a Twitter yn ystod wythnos yr Eisteddfod AmGen. Er bod y syniad yma yn un da, gwaetha'r modd, ddaru ni ddim llwyddo i wneud hyn yn y diwedd.

Er ei bod hi wedi bod yn flwyddyn heriol (a thawel) i'r Gorlan eleni, rydym – fel Pwyllgor Gwaith – yn edrych ymlaen at bob cyfle a gawn yn ystod y flwyddyn nesaf i rannu'r newyddion da am Iesu Grist gyda'r Cymry Cymraeg. Ni fydd Covid-19 yn diflannu yn fuan: mae hynny bellach yn gwbl amlwg. Felly, mae'n rhaid i ni feddwl am ffyrdd newydd a gwreiddiol i'r Gorlan fynd ati i rannu'r Efengyl yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Ni allwn ni fod yn sicr y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn digwydd yn 2021. Yn wir, mae'n amhosibl rhagweld beth fydd yn digwydd yn y dyfodol! Ond, er bod ein hamgylchiadau yn gwbl ansicr, gallwn ni fod yn gwbl sicr yn Iesu Grist. Fel mae Hebreaid 13:8 yn dweud: 'Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.' Gallwn ni fod yn gwbl sicr am wirionedd y newyddion da am Iesu ac am angen y Cymry i edifarhau a chredu ynddo Fe. Boed yr Eisteddfod yn digwydd flwyddyn nesaf neu boed lockdown arall ym mis Awst – mae'r Cymry angen clywed am Iesu. Ar faes yr Eisteddfod neu trwy fideos ar y we, ein braint yw rhannu am Iesu gyda'r Cymry Cymraeg.

Yn ychwanegol at hyn, mae amryw o faterion ymarferol mae'n rhaid i'r Gorlan ddelio â nhw cyn gynted â phosibl:

1. **Aelodau newydd i'r Pwyllgor Gwaith.** Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r Gorlan gael aelodau newydd ar y Pwyllgor Gwaith. Yn dilyn ymddeoliad Angharad fel Trysorydd y Pwyllgor ym mis Hydref, rydym yn chwilio am drysorydd newydd. Hyd yn hyn, nid ydym wedi ffeindio unrhyw un i ymgymryd â'r gwaith. Mae'n rhaid gwneud hyn cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, wedi ymddeoliad Trey fel Swyddog Ariannol y Pwyllgor ym mis Medi, rydym angen aelod newydd ar y pwyllgor i ymgymryd gyda'r gwaith hwn.

2. **Codi Arian.** Mae'n rhaid i'r Gorlan fynd ati i godi arian yn ystod y misoedd nesaf. Gan nad yw'r Gorlan wedi bod yn gwneud elw ar werthiant bwyd a diod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym bellach mewn tipyn o argyfwng ariannol gan nad ydym wedi derbyn elw cyson. Ar hyn o bryd, mae gennym ddigon o arian i ariannu un genhadaeth arall yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Wedi hynny, nid fydd arian ar ôl yng nghyfrif banc y Gorlan. Oherwydd hyn, mae'n rhaid i ni fynd ati o ddifrif i gynnal ymgyrch codi arian ymhlith Cristnogion, eglwysi, ac enwadau Cymru.

3. **Gweddi.** Mae'n rhaid i ni weddïo yn fwy cyson dros waith a chenhadaeth y Gorlan ac annog eraill i wneud hynny! Fel mae Salm 127:1 yn ei ddweud: 'Os nad yw'r ARGLWYDD yn adeiladu'r tŷ, mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer.' Rydym angen dibynnu yn llwyr ar yr Arglwydd yn ein gwaith! Wedi'r cyfan, hebddo Fe a heb waith yr Ysbryd Glân yn eu calonnau, ni all neb droi ato Fe a chredu yn Iesu. Dylai'r flwyddyn nesaf, felly, fod yn un lle'r ydym yn canolbwyntio yn benodol ar weddïo. Ffordd wych o wneud hyn ydy trwy sicrhau fod pwyntiau gweddi misol yn cael eu hanfon at holl gefnogwyr y Gorlan ar ein cylchlythyr.

Gwilym Tudur
*Cadeirydd Pwyllgor Gwaith y Gorlan*

## Mantolen Y Gorlan 2020-21

| | Derbyniadau | Taliadau |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| **Yn y Cyfrif 31ain Mawrth 2020** | 4,606.03 | |
| Storio | | 550 |
| Gwefan | | 104.40 |
| **Yn y cyfrif 31ain Mawrth 2021** | 3,951.63 | |

Wedi ei archwilio a'r ddarganfod yn gywir



Daron Stewart-Jones

Arwyddwyd 14/01/2022

### Taliadau

| Dyddiad | Arian (£) | Disgrifiad | Categori |
|---|---|---|---|
| 01/05/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/06/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/07/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 03/08/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/09/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/10/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 02/11/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/12/2020 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 04/01/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 01/02/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |
| 08/02/2021 | 86.40 | 1310 WIX COM*PREMI | Gwefan |
| 22/02/2021 | 18.00 | 1310 and 1 IONOS | Gwefan |
| 01/03/2021 | 50.00 | Bedwyr T Davies Store Rooms | Storio |